# Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod Cynllun Llesiant** | Bydd pob Grŵp Cyflawni seiliedig ar le yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith darparu seiliedig ar le yn blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadair**<br>**Is - Gadeirydd** | **Greg Jones**, Cyngor Sir Ceredigion<br>Gwilym Dyfri Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, Bethan James, Carwyn Young, Cathryn Morgan, Catrin Evans, **Connor Cook**, Dai Jones, Eirlys Lloyd, Elen James, **Joy Lake**, Rachel Auckland, Rhiannon John, Rhidian Harries, Rob Starr, Sarah Evans, Sian Salcombe, **Steffan Rees**, **Tesni Woodfall**<br>**Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:**<br>Timothy Bray, **Sara Dafydd**, **Teleri Elias**, Lynne Walters, Anwen Thomas | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | **Wayne Thomas,** Hannah Lodder-Rodda |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Jina Hawkes,** Peter Skitt, **Terri-Ann Patrick, Nathan Davies,** Dr Phil Kloer, Trina Nealon, Robert Allen, Geinor Jones, **Rhian Rees** | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | **Emyr Jones,** Hazel Thomas, Laura Cait Driscoll, Catrin Morgan-Jones |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud | Catrin Owen | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | **Sharon Morris** | Ysgol Bro Pedr | **Ffion Davies** |
| Banc Bwyd Llanbedr Pont Steffan | Julia Lim | Canolfan Teulu Llanbedr Pont Steffan | Elin Miles, Jen Leigh |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Vikki Butler, **Mererid Lewis** | Area 43 | Becca Head |
| Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan | Y Cynghorydd Elen Page | Stage Goats | Tracey O'Grady |
| Iechyd a Gofal Gwledig Cymru | **Mari Lewis** | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 09.07.24** |
|---|

**11.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol: *Carwyn Young, Gwilym Dyfi Jones, Hazel Thomas, Dai Jones.*

**11.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:**
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18fed o Ebrill 2024 yn gywir. Cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

**11.3 Eitem sefydlog: Diweddariad ac Adborth o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
- **Diweddariad ar lansiad y Cynllun Llesiant Lleol – Digwyddiadau Arddangos**
- **Diweddariad ar Adroddiad Fideo Blynyddol BGC**

Rhannodd Sara Dafydd (SD) ddiweddariad ar ran Tim Bray, a chadarnhaodd fod cyfarfod diwethaf y BGC a drefnwyd ar gyfer 3 Mehefin wedi'i aildrefnu ar gyfer 18 Gorffennaf. Adroddodd SD fod Cadeirydd y BGC wedi cytuno y byddai Adroddiad Blynyddol y BGC ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gyflwyno ar ffurf fideo. Bu cwmni cynhyrchu fideo yn ffilmio ar 18 Mehefin yn cynnwys Cadeiryddion y BGC a'r Grŵp Cyflawni yn cael eu cyfweld ynghylch eu gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod, yn ogystal â phrosiectau cyfredol, llwyddiannau, ac amlinelliad o sut mae cyflawniad y BGC wedi cael ei drefnu. Y gobaith yw y bydd y fformat hwn yn paratoi'r ffordd mewn modd hygyrch a gellir ei ddefnyddio yn ystod digwyddiadau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o'r BGC a hyrwyddo ei waith. Bydd fersiwn ddrafft yr Adroddiad Blynyddol ar gael i'w weld a'i ystyried gan aelodau yn y cyfarfod BGC nesaf.

Yn dilyn cytundeb mewn cyfarfod blaenorol y BGC, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried opsiynau ar gyfer lansio Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion yn swyddogol ar gyfer 2023-2028. Awgrymodd y Grŵp hwn y byddai'n well arddangos gweithgarwch mewn cyfres o ddigwyddiadau yn hytrach nag un digwyddiad lansio, ac y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno i'r BGC yn y cyfarfod nesaf i'w ystyried gan aelodau. Nododd SD hefyd y byddai'r Tîm Cefnogi BGC yn awyddus i glywed gan aelodau'r Grŵp Cyflawni ynghylch unrhyw ddigwyddiadau, seminarau neu sioeau teithiol sy'n cael eu cynnal ledled Ceredigion a fyddai'n rhoi cyfle i hyrwyddo gwaith y BGC. Bydd y Tîm hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i fynychu fel cynrychiolwyr BGC i hyrwyddo gwaith y Bwrdd.

Bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol yn cael ei gyflwyno i'r BGC i'w ystyried ac i'w gymeradwyo gan yr aelodau. Unwaith y bydd y Cynllun Cyflawni wedi'i gymeradwyo, gellir ei rannu gyda'r Grŵp Cyflawni er gwybodaeth.

**Cam Gweithredu: Bydd fideo Adroddiad Blynyddol y BGC a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol yn cael eu rhannu gyda Grwpiau Cyflawni'r BGC unwaith y cânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod BGC.**

**11.4 Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan 2024**

Cadarnhaodd Greg Jones (GJ) fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Thîm Allgymorth Datblygiad Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDdUHB) ynghylch cynnal Sioe Iechyd a Llesiant yng Nghanolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan. Er bod dyddiad wedi'i glustnodi ar gyfer canol mis Awst, mae hyn bellach wedi'i ohirio gyda'r nod o aildrefnu ar gyfer mis Hydref. Mae amrywiaeth o bartneriaid eisoes wedi cytuno i gymryd rhan yn y digwyddiad. Er mwyn osgoi gwrthdaro, nododd Teleri Davies (TD) fod CAVO ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith yn trefnu Ffair Cyfleoedd ar 17 Hydref.

**Cam Gweithredu: Dyddiadau Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan 2024 i'w rhannu gyda'r grŵp unwaith y cadarnhawyd.**

**11.5 Gofal Canolraddol yn Llanbedr Pont Steffan a Datblygu Tîm Amlasiantaeth**

Cyflwynodd Terri-Ann Patrick (TAP) ei hun fel Rheolwr Datblygu Lleol a Chydlynydd Gofal Clinigol y Peilot Gofal Canolraddol yn Llanbedr Pont Steffan a Datblygu Tîm Amlasiantaethol. Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â nifer o Strategaethau, gan gynnwys 'Cymru Iachach' Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn bwriadu trawsnewid ac adeiladu ar y ffordd y mae Meddygaeth Deulu, gofal eilaidd, gwasanaethau iechyd cymunedol, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal canolraddol integredig, yn seiliedig ar ardal, sy'n canolbwyntio ar y claf.
Gwneir hyn drwy alluogi'r gymuned leol, gan gynnwys partneriaid statudol ym maes iechyd a gofal, i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol i wella gwytnwch a sicrhau y gall pobl aros yn eu cartrefi eu hunain neu mor agos at eu cymuned eu hunain cyhyd â phosibl. Nododd TAP fod llu o adnoddau a gwasanaethau ar gael, fodd bynnag, prin yw'r cydgysylltiad rhwng y gwahanol sefydliadau wrth ddarparu cymorth i unigolion i gleifion yn y gymuned. Mae hyn yn ei dro yn arwain at alw cynyddol ar sefydliadau iechyd a gofal statudol, ac ymestyn amseroedd aros. TAP fydd y cyfrwng rhwng y gwasanaethau sydd ar gael, cynllunio a chydlynu gofal priodol.

Bydd datblygu a gweithredu model Gofal Integredig yn Seiliedig ar Ardal yn Llanbedr Pont Steffan yn helpu i sicrhau bod gan y Meddyg Teulu ar alwad a'r Uwch Ymarferwr Nyrsio sy'n brysbennu ac yn ymweld â chartrefi, fynediad uniongyrchol at y Cydlynydd Gofal Clinigol i gychwyn y cydgysylltu a chyfeirio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn atal derbyniad i'r ysbyty.
Trwy wella cydlynu gofal, rhagwelir y bydd gostyngiad yn yr angen am ofal eilaidd a gofal cymdeithasol, gellir rheoli achosion mwy cymhleth yn y gymuned, a bydd iechyd a llesiant y claf yn gwella. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlasiantaeth wythnosol i ganolbwyntio ar y rhai sydd mewn perygl o ddirywio. Nododd Wayne Thomas (WT) y byddai gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MWWFRS) ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfarfod amlasiantaeth, gan y gallai'r sefydliad gynnig arweiniad gwerthfawr ar faterion diogelwch preswyl, fel y Gwiriad Diogelwch yn y Cartref.

**<u>11.6 Cymunedau Cynaliadwy Llanbedr Pont Steffan</u>**

Cyflwynodd Mari Lewis (ML) ei hun i'r grŵp fel Cydlynydd Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Llanbedr Pont Steffan yn Iechyd a Gofal Gwledig Cymru. Mae'r prosiect Gwydnwch Cymunedol hwn yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth y DU a'i bweru gan gynllun *Levelling Up* trwy Gynnal y Cardi. Mae'r fenter yn hwyluso cyfarfodydd cymdeithasol wythnosol yn Festri Brondeifi, lle'r brif nod yw mynd i'r afael a lleihau nifer yr achosion o ynysu ac unigrwydd o fewn y gymuned leol.

Mae'r prosiect hefyd yn ceisio cydlynu a chysylltu gwirfoddolwyr gyda unigolion bregus i gefnogi byw'n annibynnol yn barhaus. Ar ddiwedd y prosiect ym mis Tachwedd, cynhelir dadansoddiad cynhwysfawr, gan gwmpasu'r holl ddata ac adborth a gasglwyd i greu adroddiad. Y nod yw defnyddio'r casgliadau a ddarganfyddir i lunio Cynllun Gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan osod felly y sylfeini ar gyfer mentrau posib tymor hir o'r un natur.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys dosbarthu arolwg preswylwyr a dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd. Nododd ML fod adborth wedi'i dderbyn gan y rhai a oedd yn mynychu'r sesiynau y byddai'n fuddiol pe bai'r cyfarfodydd cymdeithasol yn cael eu cynnal mewn lleoliad mwy canolog i hwyluso mynediad.
Cadarnhaodd ML fod dod o hyd i leoliad canolog o fewn Llanbedr Pont Steffan wedi bod yn anodd, ac awgrymodd GJ y dylai ML gysylltu â Carwyn Young i drafod cyfleoedd ynghylch defnyddio'r Ganolfan Lles. Awgrymodd Tesni Woodfall (TW) hefyd gysylltu â'r mannau Croeso Cynnes yn Llanbedr Pont Steffan.

Mae'r ddolen ganlynol yn cynnwys amserlen o ddigwyddiadau sydd ar y gweill a gynhelir fel rhan o'r prosiect Cymunedau Cynaliadwy yn Llanbedr Pont Steffan: https://www.facebook.com/profile.php?id=61557773818728

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i roi Mari Lewis mewn cysylltiad â Carwyn Young i drafod prosiect Cymunedau Cynaliadwy / Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan.**

**11.7 Diweddariad Grŵp Llywio Prosiect Ieuenctid Llanbedr Pont Steffan**

Rhannodd SD ddiweddariad ar ran Cadeirydd y grŵp Llywio, Dai Jones. Cafodd y cyfarfod diwethaf ei gynnal ar 25 Mehefin. Area 43, sy'n arwain y prosiect 'Dyfodol Ni' a ariennir gan y loteri ac sy'n cael ei arwain gan bobl ifanc, a rhannodd ddiweddariad ar lansiad Feelz on Wheels, sy'n ceisio mynd i'r afael â 3 phrif fater a godwyd gan bobl ifanc yn ystod ymgynghoriad – Mynediad at wasanaethau, trafnidiaeth a mannau diogel. Mae Feelz on Wheels yn gaffi ieuenctid symudol a gwasanaeth cymorth wedi'i staffio gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid cymwysedig. Cynhaliwyd y lansiad ar 3 Gorffennaf yn y Stondin Band yn Aberystwyth. Bydd Feelz on Wheels yn gweithredu ledled Ceredigion ar sail rota, a bydd ar gael i unrhyw un 13-25 oed rhwng 12-6pm. I ddechrau, bydd y ddarpariaeth ar gael am 3 diwrnod yr wythnos (dydd Mawrth yng nghlwb Pêl-droed Felinfach,dydd Iau yng Nghanolfan Hamdden Plascrug a dydd Sadwrn yn Neuadd Bentref Aberporth). Y gobaith yw y gellir cynyddu'r ddarpariaeth i 5 gwaith yr wythnos yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cafwyd diweddariadau hefyd gan Stage Goats a Thîm Cefnogi ac Atal Cyngor Sir Ceredigion (CCC). Cadarnhawyd bod cais am gyllid gan Stage Goats i’r loteri i ariannu Caffi Ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus. Mae Stage Goats hefyd wedi derbyn cyllid gan Gronfa Cynnal y Cardi i redeg prosiect peilot celfyddydol sy’n cael ei arwain gan bobl ifanc am gyfnod o 6 mis.

Yn dilyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn yr ail gyfarfod, crëwyd Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion a nodau a nodir yn yr astudiaeth ddichonoldeb. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar 31 Gorffennaf, lle mae'r grŵp yn gobeithio derbyn diweddariadau ar Feelz on Wheels, Stage Goats, yn ogystal â chyflwyniad gan Brosiect Ieuenctid sydd eisoes wedi'i sefydlu yn y rhanbarth.

**11.8 Eitem Sefydlog: Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant – Creu Newid yng Ngheredigion**

Rhoddodd Nathan Davies (ND) ddiweddariad ar Fodel Cymdeithasol ar gyfer rhaglen Iechyd a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae Grŵp Llywio'r rhaglen wedi cael ei ailstrwythuro yn ddiweddar, ac mae Cynllun Gweithredu cynhwysfawr wedi'i lunio. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Llywio yn mireinio diffiniad Model Cymdeithasol Iechyd a Llesiant, a fydd yn cael ei gyfeilio gan set o egwyddorion. Bydd yr egwyddorion yn amlinellu'r mesurau a'r camau ymarferol y gall pob sefydliad sy'n cymryd rhan eu gweithredu i fabwysiadu dull gweithredu'r rhaglen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio cynnal digwyddiad dechrau'r flwyddyn nesaf i godi proffil y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant. Fel rhan o'r rhaglen, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn ystyried Cynllun Gwirfoddoli Cymorth i Weithwyr, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd nifer o ffactorau. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ymhlith staff.

Cadarnhaodd ND fod cyfarfod nesaf Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion i'w gynnal ar 16 Gorffennaf.

Bydd hyn yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar Agenda'r Grŵp Cyflawni.

**11.9 Cyfeiriadur Gweithgarwch Lleol a Gwasanaethau Cymorth**

Fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, nododd SD fod y Cysylltwyr Cymunedol wedi rhannu gwybodaeth helaeth mewn perthynas â gweithgaredd lleol a llwybrau cymorth yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol casglu'r wybodaeth hon mewn un lle sy'n hawdd ei gyrchu, er bod heriau'n parhau o ran cadw cyfeirlyfrau yn gyfredol ac yn gywir. Rhaid hefyd ystyried bod cyfeirlyfrau megis **Dewis** a **Cysylltu Ceredigion** eisoes yn bodoli, a gallai cyflwyno cyfeirlyfr arall arwain at ddyblygu. Nododd TD betruster o ran cyflwyno cyfeiriadur ychwanegol am y rheswm hwn, ac awgrymodd fod cefnogaeth yn cael ei roi i ailsefydlu'r cylchlythyr lleol 'Grapevine' yn lle hynny. Cytunodd Rhian Rees (RR) fod angen parhau i hyrwyddo Dewis ac ystyried sicrhau bod y dudalen we yn haws ei defnyddio. Yn unol â hyn, dylid hefyd archwilio cyfleoedd i gefnogi gwella llythrennedd digidol. Adroddodd GJ fod Porth Cymorth Cynnar yn ailsefydlu'r Fforwm Pobl Hŷn, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Gorffennaf.

Awgrymodd SD, o ystyried y nodau yn y Cynllun Llesiant Lleol, yn benodol 2.1.2 a 2.1.3, y gallai hyn fod yn gyfle i archwilio'r gwaith o fapio asedau yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**11.10 Trafodaeth – Bwyd yn Llanbedr Pont Steffan**

Dywedodd SD y bydd cyfarfod nesaf Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion yn cael ei gynnal ar 18 Gorffennaf. Mae'r Cydlynydd Partneriaeth Bwyd Lleol Ann Owen yn ôl yn ei swydd ar ôl i'r cyllid gael ei adnewyddu. Bydd y cyfarfod yn gyfle i gynnig nifer o brosiectau ar gyfer y cyfnod cyllido nesaf, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r prosiectau a ariannwyd yn flaenorol yn mynd yn eu blaen ac i gynllunio'r camau nesaf tuag at aelodaeth Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Bydd diweddariad ysgrifenedig yn cael ei gylchredeg i'r grŵp yn dilyn cyfarfod y Bartneriaeth Fwyd Leol.

**Cam Gweithredu: Diweddariad ysgrifenedig i'w gylchredeg i'r grŵp yn dilyn cyfarfod y Bartneriaeth Fwyd Leol.**

Mae SD wedi bod mewn cysylltiad â Jane Powell o Eco Hwb Aber ynghylch yr ymarfer mapio mannau tyfu cymunedol. Cadarnhaodd Jane Powell fod y prosiect wedi'i gwblhau, ac mae adroddiad wedi'i lunio. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r grŵp ynghyd â'r map rhyngweithiol o fannau tyfu cymunedol.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i rannu adroddiad Eco Hwb Aber a'r map rhyngweithiol o fannau tyfu cymunedol.**

**11.11 Materion pwysig i'w codi yn y BGC nesaf**
Ni chodwyd unrhyw faterion.

**11.12 Diweddariad Partner / Unrhyw Fusnes Arall**
Ni chodwyd unrhyw fusnes arall. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a dod â'r cyfarfod i ben.

**11.13 Dyddiad y cyfarfod nesaf:**
**17 Hydref 2024 am 14:00-16:00**

**Crynodeb o'r gweithredoedd:**

| | | |
|---|---|---|
| **a)** | Gwahodd Rob Starr i gyfarfod yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llanbedr Pont Steffan.<br>Parhaus - Darperir y wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol. | |
| **b)** | Vikki Butler a Geinor Jones i drafod cyfleoedd i RhCC gynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi.<br>Parhaus – Darperir y wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol. | |
| **c)** | Gwahodd Geinor Jones i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad am waith y Dull Gweithredu Systemau Cyfan tuag at Bwysau Iach. Parhaus – Darperir y wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol. | |
| **ch)** | Bydd Adroddiad Fideo Blynyddol y BGC a Chynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol yn cael eu rhannu gyda grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo yng nghyfarfod BGC. | |
| **d)** | Rhannu dyddiadau Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan 2024 gyda'r grŵp unwaith y byddant ar gael. | |
| **dd)** | Y Tîm Partneriaethau i roi Mari Lewis mewn cysylltiad â Carwyn Young i drafod prosiect Cymunedau Cynaliadwy / Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan. | |
| **e)** | Diweddariad ysgrifenedig i'w gylchredeg i'r grŵp yn dilyn cyfarfod y Bartneriaeth Fwyd Leol. | |
| **f)** | Y Tîm Partneriaethau i rannu adroddiad Eco Hwb Aber a'r map rhyngweithiol o fannau tyfu cymunedol. | |